**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**Dydd Mawrth, 14eg Hydref, 2025, 11.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol: Martyn Groucutt, David Jones, Jayne McKenna, Phil Murphy, John Crook |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Louise Connolly | Accounting Technician Trainee |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol: Laura Wright, C. Andrews, R. Clark, H. Morgan, P. James

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Wrth wneud hynny, byddai'r Tîm Cyllid Plant a Phobl Ifanc yn cydlynu gyda Coleg Gwent i ddynodi ffyrdd o hyrwyddo Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy gyda golwg ar annog mwy o fyfyrwyr i wneud cais am gyllid drwy'r Ymddiriedolaeth.

3. **Ystyried p'un ai i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyrir yr eitem ganlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn debygol y bydd yn golygu datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf. (Atodir barn y Swyddog Priodol).**

Fe wnaethom eithrio'r wasg o'r cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem ganlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn debygol y byddai yn golygu datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

4. **Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Pobl Ifanc yng nghyswllt ceisiadau a gafwyd ar gyfer Cronfa'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2025/26.**

Fe wnaethom ystyried saith cais a gafwyd ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) rhoi dyfarniadau i'r saith ymgeisydd, yn amodol ar gael derbynebau a thystiolaeth briodol.

(ii) y byddai’r Rheolwr Cyllid a Gwasanaethau Cymorth yn cydlynu gyda Thîm Cyfathrebu Cyngor Sir Fynwy gyda golwg ar hyrwyddo Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy drwy eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

**5. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026 am 11.00am.